Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Caban Ogwen

**Y Caban**
**Ysgol Gynradd Llanllechid**
**Llanllechid**
**LL57 3EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Caban Ogwen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Caban Ogwen |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Delyth Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Zoe Roberts a Holly Heaton |
| Nifer y lleoedd | 50 |
| Amrediad oedran y plant | 2-12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 09:00-11:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 22/04/22 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 14/03/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 27/02/2024 |
| Mae'r rhan fwyaf o blant yn dod o deuluoedd ble mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu holl fedrau yn yr ardal allanol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob un plentyn yn teimlo’n hapus yn y lleoliad ac yn ymgartrefu’n dda yno. Maent yn cael croeso cynnes wrth gyrraedd. Mae’r ychydig iawn sy’n ansicr yn ymlacio’n gyflym wrth iddynt dderbyn cysur gan ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â threfn y dydd gan osod eu llun ar y goeden gofrestru ac yna ymgolli mewn gweithgareddau yn syth ar ôl cyrraedd.

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud penderfyniadau am yr hyn maent yn dymuno’i wneud. Mae bron bob un yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal chwarae i’r llall gan ddewis teganau ac offer priodol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r plant yn defnyddio’r powlenni pren a sgŵp yn y tywod i greu ‘cacennau.’ Yn ogystal, maent yn dewis eistedd wrth ochr eu ffrindiau yn ystod amser byrbryd ac amser canu. Maent yn gyfarwydd â’r arferion dyddiol ac wrthi’n brysur yn ymgymryd â’r gweithgareddau sy’n cael eu cynnig iddynt. Maent yn gyfforddus yn gwybod nad oes pwysau arnynt i gymryd rhan os nad ydynt yn dymuno. Er enghraifft, yn ystod y sesiwn ganu, dewisodd rhai fynd i chwarae yn hytrach nag eistedd ar y mat.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos dyfalbarhad yn eu chwarae a’u dysgu drwy ddefnyddio adnoddau sy’n eu diddori am gyfnodau priodol. Er enghraifft, mae’r plant yn arbrofi â’r offer yn y twba dŵr neu chwarae byd bach gyda’r anifeiliaid fferm.

Mae bron bob un yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn dangos hoffter tuag at yr ymarferwyr gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus i’w gwahodd i ymuno yn eu chwarae neu eistedd yng nghôl yr ymarferydd adeg amser canu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau gwneud ffrindiau a ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'u cyfoedion. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu ac yn mynegi eu mwynhad yn gyson trwy wenu a chwerthin. Er enghraifft, maent yn hapus ac yn frwdfrydig wrth arbrofi â'r bysellfwrdd a meicroffon. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol wrth ddefnyddio'r ystod dda o offer a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau priodol wrth ddringo offer tu allan a chydbwyso ar y sgwteri. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda wrth arllwys eu diod, dewis ffrwyth o bowlen a thaenu menyn ar bice ar y maen yn ystod amser byrbryd. Yn ogystal, mae bron bob un yn golchi a sychu eu dwylo a gosod y tywel papur yn y bin yn annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron bob un o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol wrth chwarae a dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, creadigol a chorfforol yn bwrpasol, sy'n effeithio'n llwyddiannus ar eu dysgu a'u medrau meddwl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau modur mân yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyllell i daenu menyn ar gacen, pigo ffrwythau i fyny gyda gefel a llwyau yn ystod byrbryd. Mae bron pob un yn datblygu medrau modur mawr yn effeithiol wrth gicio pêl, cydbwyso a reidio beiciau.

Mae llawer yn datblygu medrau gwrando a siarad Cymraeg yn gadarn gan gyfathrebu â'r ymarferwyr yn gynyddol hyderus. Maent yn dechrau siarad â'u ffrindiau am yr hyn y maent yn ei wneud ac yn gofyn am offer wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau canu caneuon sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau a'u datblygiad. Mae bron bob un o'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n astud ac yn gweithredu arnynt yn gynhyrchiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u synhwyrau i archwilio blodau ar ôl awgrymiadau gan yr ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol, er enghraifft wrth edrych ar lyfrau yn y gwahanol ardaloedd. Maent yn dechrau creu marciau'n llwyddiannus wrth ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu archeb pitsa yn llyfr nodiadau yn yr ardal chwarae rôl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn briodol wrth chwarae tu allan. Maent yn cyfri cynhwysion gwahanol i ychwanegu i'r bowlen yn y gegin fwd ac yn trafod os yw powlenni'n wag neu'n llawn wrth chwarae â dŵr. Mae llawer o blant yn datblygu medrau digidol yn llwyddiannus wrth reoli teganau electronig. Maent yn datblygu medrau rheolaeth cynnar yn effeithiol trwy fewnbynnu cyfarwyddiadau i degan er mwyn gwneud iddo symud.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau creadigol yn fedrus. Maent yn dewis deunydd, cyfrwng ac adnoddau ar gyfer gweithgaredd, er enghraifft wrth ddewis paent neu i ludo papur i greu llun daffodil. Maent yn mwynhau chwarae'r bysellfwrdd ac yn canu i'r meicroffon yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhesymu da wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn gallu esbonio bod magnetau'n glynu wrth fetel.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae perthynas agos a naturiol iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i ddewis a dethol gweithgareddau ac adnoddau eu hunain tu fewn a thu allan. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roi clod ar lafar, er enghraifft wrth i blentyn gynorthwyo â'r tacluso. Mae'r ymarferwyr yn gyson a theg wrth reoli ymddygiad ac yn fodelau rôl cadarnhaol. Maent yn rhoi cyfleoedd da i blant fod yn annibynnol trwy annog iddynt wneud dewisiadau wrth gyrraedd y lleoliad ac yn ystod amser byrbryd.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn systemau trylwyr i sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau pe byddai unrhyw bryderon am les neu ddiogelwch y plant. Maent yn cadw cofnodion am bryderon, damweiniau a digwyddiadau yn briodol. Mae'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn plant sy'n eu galluogi i ddelio ag unrhyw broblemau neu bryderon sy'n codi. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan bob un o'r ymarferwyr, sy'n sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r prosesau i'w dilyn. Mae'r gweithdrefnau a'r arferion hylendid yn effeithiol ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo yn annibynnol ar yr amseroedd priodol.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am anghenion a hoffterau bob plentyn. Maent yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol gan rieni/gofalwyr wrth iddynt gofrestru eu plant. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau yn ôl diddordebau'r plant ac yn gweithredu fel gweithwyr allweddol ar gyfer grwpiau penodol yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn ymwybodol o gamau datblygu nesaf bob plentyn. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o weithdrefnau cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gwneud defnydd da o'r gweithdrefnau clir sydd ar waith ar gyfer adnabod anghenion plant yn gynnar ac maent yn cyfeirio am gefnogaeth gan asiantaethau allanol, yn ôl yr angen.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddathliadau fel y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd, Diwali a Dydd Gŵyl Dewi Sant yn llwyddiannus.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n diwallu anghenion bron bob plentyn yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau cyfleoedd diddorol i blant wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i ymestyn eu chwarae am gyfnodau mwy estynedig. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac yn ymyrryd yn eu chwarae yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant greu marciau ymhob ardal gan ddarparu llyfrau nodiadau yn yr ardal chwarae rôl a beiro a chlipfyrddau yn yr ardal adeiladu. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu medrau modur mân wrth reoli gwahanol offer yn annibynnol, er enghraifft wrth osod pegiau mewn tyllau. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus wrth eu hannog i gicio pêl a reidio beiciau a sgwteri yn yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd cyson i wella medrau digidol cynnar y plant, fel defnyddio teganau rhaglenadwy, bysellfwrdd electronig a chyfrifiadur. Maent yn herio plant yn effeithiol i ddatblygu eu medrau rhifedd. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd da i rifo pegiau, trefnu cerrig yn ôl maint, a chânt gyfleoedd i lenwi blychau â thywod i gymharu cyfeintiau gwahanol. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn annog y plant i adnabod rhifau yn yr amgylchedd gan gynnwys chwilio am rifau ar y ffôn ar gyfer archebu pitsa ne ffonio'r heddlu.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o'r ardaloedd dysgu tu fewn ac allanol i ddatblygu holl fedrau'r plant. Maent yn cynllunio gweithgareddau difyr sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau fel astudio daffodil yn fanwl cyn gweithgaredd creadigol yn datblygu medrau arsylwi, llafar a chreadigol y plant yn dda. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro'n gwneud y defnydd mwyaf pwrpasol o'r ardal allanol i ddatblygu holl fedrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu gweithgareddau i ymateb i'w hanghenion yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o asesiadau ac arsylwadau i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn holi'r plant yn bwrpasol i atgyfnerthu eu dealltwriaeth ac i'w hannog i feddwl. Mae ymarferwyr yn modelu iaith yn gadarn ac yn gwneud defnydd effeithiol o ganeuon i ddatblygu medrau plant.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen a chanu rhigymau traddodiadol yn rheolaidd. Maent yn rhoi cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill mewn ffordd ddifyr fel blasu bwydydd a gwisgo dillad traddodiadol o wahanol wledydd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant. Gwneir hyn trwy gyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar ac ap i rannu lluniau gweithgareddau plant yn wythnosol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant. Maent yn gofyn i ymwelwyr fewngofnodi'n brydlon ac maent yn cadw cofnod manwl o'r cofrestrau hyn. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg perthnasol ar gyfer yr adeilad, yr ardal allanol ac ar gyfer gweithgareddau penodol. Maent yn goruchwylio'r plant yn ofalus mewn amgylchedd diogel. Maent yn cynnal ymarferion tân er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn pe bai argyfwng.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar iawn. Maent yn dathlu gwaith y plant trwy osod eu crefftau unigol o amgylch y brif ystafell. Er enghraifft, mae gwaith celf ar y thema gaeaf yn cael ei arddangos, gyda phob un yn mynegi syniadau'r plant yn unigol. Ceir ffotograffau'r plant ar y wal penblwyddi, ar y goeden cofrestru ac uwchben y pegiau yn y cyntedd. Mae hyn oll yn cyfrannu at yr ymdeimlad o berthyn.

Mae'r ardal tu allan yn cynnig amgylchedd addas i'r plant  gymryd rhan mewn gweithgareddau priodol, er enghraifft i chwarae ar y beiciau, sgwteri ac i arbrofi yn y gegin fwd.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn daclus, yn lân ac yn ddeniadol. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel sy'n addas i'r plant er mwyn eu hannog i fod yn annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ac amcanion synhwyrol ar gyfer y lleoliad. Mae'r rhain wedi'u seilio ar ddarparu gofal ac addysg o safon uchel i'r plant mewn amgylchedd sy'n ddiogel a symbylus. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm mewn amgylchedd hapus. Mae pob un o'r ymarferwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith yn y lleoliad ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygu holl fedrau'r plant, a chydag ymrwymiad llwyr yr ymarferwyr, yn gwneud hynny'n gyson ac effeithiol. Mae gan y lleoliad bartneriaeth effeithiol â'r ysgol gynradd leol i hwyluso'r addysgu ac i gefnogi trefniadau pontio. Er enghraifft, mae'r plant yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar gyfer sesiynau chwarae. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau dysgu ac yn gymorth i'r plant pan ddaw'r amser iddynt drosglwyddo i'r ysgol gynradd.

Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da o gefnogaeth a chyngor athrawes ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant cadarn o ddiogelwch ac mae polisïau addas wedi'u sefydlu i sicrhau bod y plant a'r ymarferwyr yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn rheoli ymarferwyr ac adnoddau yn effeithiol gan sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'u rolau a chyfrifoldebau. Maent yn sicrhau bod cymarebau cywir o ymarferwyr i blant ac mae ganddynt gynlluniau priodol wrth gefn i ddelio ag absenoldebau. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod arferion recriwtio diogel yn cael eu gweithredu'n gywir. Mae'r arweinwyr yn cynnig proses anwytho drylwyr ac yn cynnal sesiynau goruchwyliaeth rheolaidd gyda staff. Fodd bynnag, nid ydynt yn cofnodi'r sesiynau gwerthuso blynyddol ar wahân er mwyn gosod targedau effeithiol a sicrhau cofnod clir o ddatblygiad ac anghenion hyfforddiant yr ymarferwyr. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd addas o gyllid i gyflogi ymarferwyr ac i brynu adnoddau addas sy'n cael effaith gadarnhaol ar blant.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant y lleoliad yn syml ac effeithiol. Drwy weithgareddau hunanwerthuso pwrpasol, mae'r arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r

wybodaeth yn bwrpasol i gynllunio camau gweithredu synhwyrol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod a gwella agweddau o’r ddarpariaeth sy’n cael effaith gadarnhaol ar fedrau’r plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2024

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 25 | Leaders have not ensured there are appropriate measures in place to review and monitor risks effectively. | Cyflawnwyd |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  02/05/2024

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 02 Mai 2024

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.